# Jig-so

## (neu defnyddiwch gardiau/lluniau)

*maint a siâp*

Wyt ti'n credu bydd hwn yn ffitio? Ydy e'n rhy fach/fawr? Ydy'r siâp yn anghywir?

*siâp a ffitio*

Wyt ti'n gallu gweld darn sy'n edrych fel siâp y bwlch yma? Pa siâp fydd y darn sy'n ffitio yma?



*rhagfynegi*

Pa lun/pa liwiau fydd ar y darn sy'n mynd nesaf at hwn?

*rhagfynegi*

Tybed sut bydd e'n edrych pan fyddwn ni wedi gorffen?

*ffitio a wynebu pa ffordd?*

Www, beth am droi hwn rownd a gweld os yw e'n ffitio?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Jig-so
# (neu defnyddiwch gardiau/lluniau)

*siâp*

Faint o ddarnau sy’n sticio i mewn/mas ar y darn jig-so ry’n ni ei angen?

*siâp a safle*

Dw i’n mynd i chwilio am bob darn gydag ymyl syth i fynd o gwmpas y tu allan.



*siâp a ffitio*

Sut wyt ti’n gwybod nad hwnnw yw’r darn cywir?

*siâp a safle*

Oes unrhyw ddarnau gyda chorneli? Ble allen nhw fynd?

*safle a iaith siapiau anffurfiol*

Dw i’n credu ein bod ni angen darn jig-so lle mae’r darnau sy’n sticio mas gyferbyn â’i gilydd… wyt ti’n gallu cael hyd i un?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Yn y bath

## (neu chwarae gyda dŵr mewn powlen neu sinc)

*cymharu cynwyseddau*

Hoffet ti'r jwg mawr yma neu'r jwg bach yma?



*cymharu cynwyseddau*

Beth am arllwys yr holl ddŵr o'r potyn mawr melyn i'r potyn bach glas. Beth wyt ti'n meddwl bydd yn digwydd?

*cynhwysedd*

Beth am i ni weld os bydd llond jwg yn llenwi'r cwpanau yma i gyd…

*cyfaint*

Beth am lenwi rhain hanner ffordd er mwyn i ni'n dau/dwy gael yr un faint i 'yfed'.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Yn y bath

## (neu chwarae gyda dŵr mewn powlen neu sinc)

*cyfaint*

Wyt ti’n gallu llenwi hwn yr holl ffordd at y llinell?

*maint a chynhwysedd*

Mae’r lletwad yma’n ENFAWR! Mae hi’n dal mwy na’r cwpan!



*cynhwysedd a chymharu*

Pa gwpan sy’n dal y mwyaf o ddŵr? Sut gallwn ni wirio hynny?

*nifer a phwysau*

Tybed faint o gerrig dw i’n gallu rhoi yn fy mhowlen i cyn iddi hi suddo?

*cynhwysedd*

Os byddwn ni’n parhau i arllwys, bydd hwn yn gorlifo!

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Darllen llyfr

*safle*

Mae’r afr o dan / ar ben / tu ôl / o flaen / wrth ymyl y bont.



*mwy*

Mae’r llyfr yma’n hirach. Edrycha ar yr holl dudalennau!

*rhagfynegi a dilyniant*

Beth wyt ti’n meddwl bydd yn digwydd nesaf?

*uchder, ffit a maint*

Tybed fydd hi’n gallu cyrraedd brig y goeden? Tybed fydd hi’n gallu cuddio tu ôl i’r goeden?

*rhifau*

Dw i’n credu bod llun da ar dudalen 6…wyt ti’n gallu dod o hyd iddo fe?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Darllen llyfr

*cyfeiriad a dilyn llwybrau*

Beth am i ni ailadrodd stori'r daith a chofio beth wnaethon nhw basio ar y ffordd? Beth am i ni greu map?



*adio*

Os bydd un pysgodyn arall ar y dudalen nesaf, faint o bysgod wyt ti'n credu byddwn ni'n eu gweld?

*cyfrif a chymharu*

Dw i'n credu bod mwy o adar nag o ieir bach yr haf (pili palas) yn y llun yma. Beth wyt ti'n ei feddwl?

*cyfeiriad a dilyn llwybrau*

Pa ffordd ddylai'r iâr gerdded i gyrraedd y cwt ieir?

*geirfa amser*

Beth ddigwyddodd yn gyntaf / nesaf / ar ôl hynny / cyn hynny?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Cerdded i'r siopau

*safle*

Beth sydd drws nesaf i swyddfa'r post?

*rhifau*

Beth am i ni weld pwy fydd y cyntaf i weld rhif 3 yn rhywle? Dw i'n mynd i edrych ar y ceir ac ar y drysau.



*cyfrif*

Beth am i ni gyfri'r grisiau!

*amcangyfrif*

Tybed faint o gŵn wnawn ni eu gweld ar y ffordd i'r siop heddiw?

*cyfeiriad a dilyn llwybrau*

Pa ffordd awn ni nawr? Pa ffordd awn ni nesaf?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Cerdded i'r siopau

*cyfeiriad a dilyn llwybrau*

Pa ffordd ddylen ni gerdded heddi? Fe gei di arwain y ffordd!

*cyfrif*

Mae llawer o bolion lamp ar y stryd yma… beth am i ni eu cyfrif nhw i gyd?



*cofio'r ffordd*

Wyt ti'n cofio beth fyddwn ni'n ei basio nesaf? Y blwch post neu'r gât lle mae'r ci yn byw?

*cyfeiriad a dilyn llwybrau*

Dyma'r safle bws. Beth am weld pa fysiau sy'n stopio yma? Ble maen nhw'n mynd tybed? Edrycha – mae 'na fap!

*trefn rhifau*

Does dim rhif ar rai o'r drysau 'ma…

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Chwarae efo cerbydau a theganau

*nifer*

Faint o geir sydd gyda ti i gyd?

*maint*

Pa un o dy geir di yw'r mwyaf / lleiaf? Pam wyt ti'n meddwl hynny?



*cyfeiriad*

Mae fy nghar i'n mynd dros / o dan / o gwmpas y bont.

*maint a siâp*

Ydyn ni'n gallu gwneud maes parcio / garej fydd yn dal y ceir i gyd?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Chwarae efo cerbydau a theganau

*cyfrif*

Dyma safle bws. Beth am i ni roi'r teganau / y bobl bach yma i gyd mewn ciw i ddal y bws nesaf…mae'r bws yn hwyr, mae'r ciw yn hir. Faint o bobl sy'n disgwyl am y bws nawr?



*persbectif*

Beth mae gyrrwr y car lliw arian yn gallu ei weld?

*safle*

Beth am i ni roi'r ceir i gyd mewn rhes – ble fydd y car coch yn mynd? Beth am yr un glas – efallai nesaf i / tu ôl / o flaen y car coch?

*hyd*

Pa gar sy'n mynd bellaf pan rydyn ni'n eu rholio nhw i lawr y ramp?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwneud byrbryd

*rhannu*

Mae llawer o geirios 'da ni heddi! Beth am i ni eu rhannu nhw?



*cymharu a nifer*

Faint wyt ti eisiau/moyn? 1 neu 2?

*cyfrif neu adio*

O na! Does dim digon! Faint mwy ydyn ni eu hangen?

*siâp*

Wyt ti eisiau/moyn i mi dorri dy dost i siâp sglodion neu drionglau?

*maint*

Wyt ti moyn/eisiau'r llwy fawr neu'r llwy fach heddi?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwneud byrbryd

*rhannu a chyfrif*

Mae 10 cracer ’da ni fan hyn i’w rhannu’n gyfartal. Sawl cracer fydd gan bob un ohonoch chi?

*cyfrif*

Faint o fananas sydd eu hangen er mwyn i bawb gael un?



*siâp*

Wyt ti eisiau/moyn bisgïen gron neu un siâp petryal?

*siâp*

Beth am i ni ei dorri e’n union yn ei hanner / yn ddau ddarn.

*rhannu a chymharu*

Beth am i ni eu rhannu nhw fel bod pawb yn cael yr un nifer.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwisgo

*cyfrif*

1 hosan, dwy hosan!

*cyfrif*

1, 2, 3, 4.
4 botwm wedi'u cau.

*pa ffordd?*

O na! Mae e wyneb i waered / tu chwith! Beth am ei droi e y ffordd iawn.



*maint a phatrwm*

Ai rhain yw dy fenig di? Neu ydyn nhw'n rhy fach / fawr i dy ddwylo di? Ydyn nhw'n mynd gyda'i gilydd?

*safle*

Mae angen i'r byclau ar dy 'sgidiau fod ar ochr allanol pob troed.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwisgo

*safle*

Teits! Ydy'r bysedd traed yn pwyntio ymlaen?

*cyfrif yn ôl*

Beth am i ni gyfri'n ôl wrth i'r sip fynd i lawr. 10, 9, 8, 7, 6, 5, 4, 3, 2, 1, 0.



*cyfrif ymlaen*

Beth am i ni gyfrif wrth i'r sip fynd lan? 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10.

*cyfrif*

Fest, crys-T, siwmper – rwyt ti'n gwisgo tair haen heddi! A gyda dy got, bydd pedair haen 'da ti! Ond os wyt ti'n tynnu dy siwmper, byddi di'n gwisgo dwy haen.

*safle*

Braich dde i mewn, braich chwith i mewn.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Chwarae efo toes

*nifer*

Canhwyllau! Pen-blwydd pwy yw hi heddi? Ydy nifer cywir y canhwyllau ’da ni er mwyn i ni allu canu?

*amcangyfrif a maint*

Faint o fisgedi wyt ti’n meddwl gelli di eu gwneud gyda’r torrwr ’na?



*cyfrif / sawl un?*

I faint o ddarnau wyt ti wedi ei dorri fe?

*cyfaint*

Beth am rannu’r toes fel bod pawb yn cael yr un faint. Sut gallwn ni wneud hynny?

*hyd*

Pwy sy’n gallu gwneud y mwydyn hiraf gyda’u toes?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Chwarae gyda toes

*nifer*

Faint o dyllau wyt ti wedi eu gwneud?

*nifer*

Faint o gacennau sydd yn y tun teisennau bach? Faint o le/fylchau sydd ar ôl?



*maint a ffitio*

Pa dorrwr wyt ti am ei ddewis i wneud mwy o fisgedi y tro ’ma?

*pwyso*

Dyma’r glorian. Beth am i ni bwyso dy gacen?

*trefnu patrymau*

Ydyn ni’n gallu ei wneud e yr un fath ar y ddwy ochr?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Dadbacio'r siopa

*maint a safle*

Mae'r bocs grawnfwyd yma'n enfawr. Bydd rhaid i ni ei roi e ar ei ochr er mwyn iddo fe ffitio.

*maint, siâp a ffitio*

Ble wnawn ni roi'r botel fawr er mwyn iddi ffitio?



*pwyso*

Pa un o'r rhain yw'r trymaf?

*cyfrif*

Faint o afalau sydd gyda ni? Beth am eu cyfrif nhw wrth i ni eu rhoi nhw yn y bowlen.
1, 2, 3. Mae tri afal yn y bowlen.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Dadbacio’r siopa

*maint*

Mae hon yn daten fawr!

*cyfrif*

1, 2, 3, 4.
Pedwar tun o ffa. Ai pedwar wnaethon ni brynu? Ai dyna nhw i gyd?



*pwyso*

Mae’r bocs yma’n drwm – wyt ti’n gallu ei godi fe’n iawn?

*lleoliad a safle*

Rho’r iogwrt wrth ymyl / ar ben / o flaen / tu ôl i’r menyn.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Sylwi ar batrymau

*rhagfynegi*

Neidio, hercian, neidio, hercian, neidio, hercian, neidio…beth sy’n dod nesaf?

*sylwi*

Dw i’n gallu gweld patrwm streipiog. Ar beth dw i’n edrych, wyt ti’n credu?



*rheolau patrwm*

Www! Mae patrwm igam-ogam ar y papur wal yna - ‘lan, i lawr, lan, i lawr’. Dw i’n gallu gwneud y patrwm gyda fy mys i!

*adlewyrchiad*

Mae ffenestr a drws bob ochr i’r adeilad ’na. Maen nhw yr yn fath ond y ffordd arall rownd!

*trefnu patrymau*

Dw i’n bwyta bisgïen gyda smotiau o amgylch yr ymyl. Wyt ti eisiau/moyn un ’da smotiau o amgylch yr ymyl neu yn y canol?

*rhagfynegi*

“Pen, ysgwyddau, coesau, traed, coesau, traed. Pen, ysgwyddau, coesau, traed, coesau ____”. Cân gyda phatrwm.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw’n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae’n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwneud patrymau

*patrymau cylch*

Dw i'n trefnu'r teganau mewn cylch!



*unioni patrymau*

Dw i'n eu rhoi nhw mewn rhes, i gyd yn edrych yr un ffordd.

*patrymau maint*

Dw i'n gwneud cylch…sydd tu mewn i gylch mwy…sydd tu mewn i gylch mwy eto…sydd tu mewn i gylch hyd yn oed yn fwy.

*unioni patrymau*

Dw i'n gwneud tŵr gyda brics o'r un math.

*cywiro camgymeriadau*

Pa un sydd wedi mynd o'i le? Wyt ti'n gallu ei gywiro fe?

*sylwi*

O, rwyt ti wedi eu gosod nhw mewn sbiral!

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwneud patrymau

*cywiro camgymeriadau*

Wyt ti'n gallu gweld fy nghamgymeriad i?

*sylwi ar ailadrodd*

Gad i ni weld – beth yw'r uned ailadroddol?



*gwneud patrwm efo 2 beth*

Wyt ti'n gallu gwneud dy batrwm dy hun gyda dau beth sy'n ailadrodd drosodd a throsodd?

*copïo*

Wyt ti'n gallu copïo fy mhatrwm i? (e.e. coch - glas - glas). Nawr, beth am ei wneud e eto ac eto a gwneud trên hir sy'n mynd ymlaen ac ymlaen gyda'r patrwm yma?

*copïo a pharhau*

Wyt ti'n gallu parhau gyda fy mhatrwm i? Wyt ti'n gallu copïo fy mhatrwm i? (o dan fy un i)

*darganfod y rheol*

Beth yw'r patrwm? (mawr bach, coch glas, A B)

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Gwneud patrymau

*rheolau patrwm*

Beth yw dy uned patrwm? Beth yw'r rhan leiaf sy'n ailadrodd drosodd a throsodd?



*patrymau borderi*

Beth am wneud i dy batrwm fynd o amgylch ymyl y siâp (plât crwn, triongl neu sgwâr mawr). Ydy dy batrwm yn 'gweithio' ac yn ailadrodd am byth? Pam / Pam ddim?

*rheolau patrwm a chamgymeriadau*

Gwna batrwm gyda chamgymeriad i weld os dw i'n gallu cael hyd iddo fe.

*copïo (ffordd newydd)*

Alli di wneud symudiadau gan ddilyn patrwm y pethau o dy flaen di?

*copïo (ffordd newydd)*

Alli di wneud yr un patrwm ond y tro yma gan ddefnyddio pethau gwahanol?

*parhau (i'r ddau gyfeiriad)*

Ydy dy batrwm yn gallu parhau i'r chwith yn ogystal ag i'r dde?

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Cynllunio

*uchder*

Dw i'n mynd i adeiladu tŵr uchel gyda brics.

*dyddiau'r wythnos a phatrwm*

Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher, Dydd Iau, Dydd Gwener, Dydd Sadwrn, Dydd Sul… ac eto ac eto!



*nifer a siâp*

Faint o grysau-T fyddi di angen mynd ar dy wyliau? Helpa fi i'w plygu nhw.

*ffitio*

Helpa fi i bacio dy bethau yn dy fag. Sut gallwn ni wneud i bopeth ffitio tu mewn?

*dilyniannu*

'Sgidiau ymlaen, yna cer mas.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**

# Cynllunio

*cyfeiriad a dilyn llwybrau*

Pa ffordd awn ni?
O gwmpas y parc
neu drwy'r parc?




*cyfrif yn ôl*

Mae pum diwrnod tan dy ben-blwydd di. Beth am ysgrifennu'r rhifau a chroesi un mas bob dydd tan dy ben-blwydd?

*dyddiau'r wythnos a chyfrif*

Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher… 1, 2, 3. Tri diwrnod (tridiau) i ddisgwyl.

*amcangyfrif*

Tybed faint o geir coch byddwn ni'n eu gweld pan fyddwn ni'n mynd am dro heddi?

*iaith amser*

Fe gawn ni ein cinio yn gyntaf, ac wedyn awn ni'r ysgol feithrin.

gwefan

**Gwyliwch eich plentyn yn chwarae • Edrychwch ar beth maen nhw'n ei fwynhau • Ymunwch gyda nhw a defnyddiwch y syniadau yma pan mae'n ymddangos eu bod yn barod**